# HYSBYSIAD CYHOEDDUS

## CYNGOR SIR CEREDIGION
## DEDDF CYMALAU HEDDLU'R DREF 1847
## (ADRAN 21)

## CARNIFAL BORTH 2025

---

HYSBYSIR drwy hyn fod Cyngor Sir Ceredigion wedi gwneud y Gorchymyn canlynol o dan Adran 21 o Ddeddf Cymalau Heddlu'r Dref 1847 er mwyn Atal Rhwystrau ayb.

Rhwng 13:30 a 15:30 ddydd Gwener 1 Awst 2025, oherwydd dathliadau Carnifal Borth, bydd y rhan o'r ffordd a adwaenir fel y B4353, Stryd Fawr, y Borth yn sir Ceredigion dan ei sang a gall fod rhwystrau arni.

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn unol â'r pwerau a roddir gan Adran 21, Deddf Cymalau Heddlu'r Dref 1847 DRWY HYN YN GORCHYMYN AC YN CYFARWYDDO at bwrpas atal rhwystrau ar y cyfryw ffordd ar y cyfryw ddiwrnod y bydd yn rhaid cadw at y rheoliadau canlynol:-

1. Yn ddibynnol ar y darpariaethau hynny a gynhwysir yn erthyglau 2 a 3, bydd y rhan honno o'r ffordd a adwaenir fel y B4353, Stryd Fawr, y Borth yn sir Ceredigion, ar gau i bob cerbyd gan gynnwys beiciau pedal rhwng 13.30 a 15:30 ddydd Gwener 1afl Awst 2025.
2. Ni fydd darpariaethau erthygl 1 ond yn gymwys ar yr adegau ac i'r graddau y bydd y cyfyngiadau y cyfeirir atynt yma wedi'u dangos gan arwyddion traffig a stiwardiaid dynodedig.
3. Ni fydd unrhyw beth yn erthygl 1 o'r gorchymyn hwn yn gymwys i unrhyw gerbyd a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys, cerbydau a ddefnyddir yng nghyswllt y digwyddiadau sydd yn rheswm i'r gorchymyn hwn, nac unrhyw beth a wneir gyda chaniatâd neu o dan gyfarwyddyd swyddog heddlu mewn lifrai.
4. Y trywydd newydd ar gyfer traffig sy'n teithio i gyfeiriad y de o bwynt i'r gogledd o'r darn a gaewyd yw teithio ar hyd y B4353 i'r gyffordd â chefnffordd yr A487 yn Nhre'r-ddôl. Trowch i'r dde i gefnffordd yr A487 gan deithio i'r gyffordd â'r B4353 yn Rhydypennau. Trowch i'r dde i'r B4353 gan deithio hyd y pwynt i'r dwyrain lle mae'r ffordd ar gau. Ac i'r gwrthwyneb i draffig sy'n teithio i gyfeiriad y gorllewin. Cedwir mynediad i gerddwyr ar bob adeg.

Y gosb am fynd yn groes i'r Rheoliadau hyn yw dirwy nid mwy na Mil o Bunnau.

Dyddiedig yr 21 o Orffennaf 2025

Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron